# Achubwch Rubicon am y Dyfodol

Mae Rubicon Dance wedi bod yn flaenllaw yn Nawns Gymunedol yng Nghymru dros y 47 mlynedd diwethaf. Mae etifeddiaeth y bobl sydd wedi profi dawns yn ein hadeilad a thu hwnt yn anferth ac maen nhw'n ffynnu mewn byd sydd yn ansicr iawn ar adegau.

Yn anffodus, dros yr wythnosau diwethaf, datgelwyd mater ariannol difrifol gan y Bwrdd ac Uwch Dîm Arwain Rubicon Dance, newydd ei benodi. Mae ein cyllid mewn sefyllfa anodd ac rydym yn wynebu sawl mis hynod o galed. Mae digwyddiad difrifol wedi ei adrodd i'r Comisiwn Elusennau a bydd ymchwiliad trylwyr yn cael ei gynnal.

Ers y datgeliad hwn, mae'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Arwain newydd ei benodi wedi bod yn ymgysylltu â'n staff, rhanddeiliaid, a noddwyr, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, mewn ymgais i ddatrys y sefyllfa. Mae yna isgerrynt cryf o gymorth gan nifer o ffynonellau gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru sydd yn atgyfnerthu ein penderfyniad i sicrhau dyfodol Rubicon.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r staff hynod o ymroddedig sy'n parhau i fod gyda Rubicon – o'r Uwch Dîm Arwain newydd, staff ac arweinwyr dawns, gweithwyr llawrydd i lanhawyr – wedi gwneud popeth i sicrhau bod ein dosbarthiadau a gwasanaethau yn parhau fel arfer. Mae eu hangerdd i wasanaethu ein cymunedau a dawnswyr wedi bod yn ysbrydoledig. Rydym am gyfleu ein diolch a'n diolchgarwch i bob un ohonynt.

Er ein hymdrechion gorau a nifer fawr o sgyrsiau cadarnhaol, hyd yn hyn, rydym wedi gallu sicrhau rhai o'r cyllid sydd angen arnom i sefydlogi ein sefyllfa ariannol tymor canolig yn unig. Rydym yn cymryd cyngor, siarad â phartneriaid, ac yn parhau i ganolbwyntio ar ddatrys y sefyllfa hon.

Ni allwn ddychmygu Cymru heb Rubicon, ein mudiad celfyddydol cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar bobl.
Os allwch helpu, ag unrhyw syniadau am ffyrdd o gefnogi, neu am rannu eich profiadau ac atgofion cadarnhaol o ddawnsio yn Rubicon, cysylltwch â future@rubicondance.co.uk.

Os hoffech gefnogi Rubicon yn ariannol, ymwelwch â'n hymgyrch cyllid torfol Achubwch Rubicon am y Dyfodol.

Yn ystod y cyfnod anodd iawn hwn, diolch i bawb am eich ymroddiad a theyrngarwch i'n gweledigaeth. Gyda chymorth ein nifer o gyfeillion a chefnogwyr gwyddwn y bydd ein dyfodol yn cael ei sicrhau.

RUBICON DANCE
Welsh Dance Theatre Trust – a social arts organisation

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales




Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Supported by **The National Lottery®** through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan **Y Loteri Genedlaethol** trwy Gyngor Celfyddydau Cymru